**Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol**

—

**Culture, Communications, Welsh Language, Sport, and International Relations Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddDiwylliant@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddDiwylliant
0300 200 6565

—

**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddCulture@senedd.wales
senedd.wales/SeneddCulture
0300 200 6565

Helgard Krause
Prif Weithredwr
Cyngor Llyfrau Cymru

13 Rhagfyr 2023

**Model ariannu cylchgronau**

Annwyl Helgard,

Yn ein cyfarfod Pwyllgor ar 16 Tachwedd 2023, gwnaethom ystyried llythyr gan Wales Arts Review am fodel ariannu cylchgronau Cyngor Llyfrau Cymru. Mae hyn yn dilyn llythyr arall y cawsom dros yr haf gan dîm ymgyrch Achub Cylchgronau Cymreig am danariannu cronig yn y sector.

Fodd bynnag, mae difrifoldeb y sefyllfa yn fwy dwys ers cyhoeddi'r rhai fydd yn derbyn grant ar gyfer cyfnodolion diwylliannol Saesneg ar gyfer 2024-28 ar 7 Rhagfyr 2023. Nodwn eisoes fod Bwrdd Cylchgrawn Planet wrthi'n ystyried ei opsiynau yn dilyn y penderfyniad i beidio â pharhau i ddarparu cymorth grant iddo.

Ar ôl ystyried y materion hyn, hoffem ofyn y canlynol:

- A allwch chi egluro pam mae cylchgronau Cymraeg yn cael cyfran sylweddol uwch o gyllid o gymharu â chylchgronau Saesneg? Roedd y grant ar gyfer cylchgronau Cymraeg yn £388,875 yn 2023 o gymharu â £147,900 ar gyfer cylchgronau Saesneg. Mae'r ddau ffigur wedi gostwng o 2022.

- Pa drafodaethau y mae Cyngor Llyfrau Cymru wedi'u cael am newidiadau i'r sector cylchgronau yng Nghymru? O ystyried bod lefelau ariannu wedi bod yn sefydlog yn ystod yr ychydig flynyddoedd diwethaf, pa newidiadau yr ydych wedi ystyried eu cyflwyno?

- Pa adolygiad o’r model cyllido, canllawiau neu gylch gorchwyl ymgeisio y mae’r Cyngor Llyfrau wedi’i wneud yn ystod y pum mlynedd diwethaf? A oes unrhyw gynlluniau i adolygu'r rhain yn y dyfodol agos?

- Byddem hefyd yn ddiolchgar pe gallech roi amlinelliad o pam yr ydych wedi gwneud y penderfyniadau sydd gennych o ran cyfnodolion diwylliannol Saesneg. Er enghraifft, y broses y gwnaethoch ei dilyn, y meini prawf a nodir ar gyfer ymgeiswyr am grant, sut y bu ichi feincnodi’r holl geisiadau a dderbyniwyd yn erbyn meini prawf o’r fath, a’r penderfyniadau llawn yr ydych wedi’u gwneud yn hyn o beth.

Edrychaf ymlaen at glywed gennych maes o law.

Yn gywir,



**Delyth Jewell AS**
**Cadeirydd y Pwyllgor**

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.